CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A CHERBYD HURIO PREIFAT GYFUNOL

Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â llaw, ysgrifennwch yn glir gyda phriflythrennau, os gwelwch yn dda. Ym mhob achos, sicrhewch fod eich atebion y tu mewn i'r bylchau. Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os oes angen. Efallai y dymunwch gadw copi o'r ffurflen wedi'i llenwi i'ch cofnodion.

1. Eich Manylion	
Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall (Nodwch)	**Ticiwch ✓**
Enw(au) Cyntaf	
Cyfenw	
Dyddiad Geni	
Rhif Yswiriant Gwladol	
Rhyw	Gwryw ☐ Benyw ☐
CYFEIRIAD BLE RYDYCH YN BYW FEL ARFER (Byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn i ohebu â chi oni bai eich bod yn gofyn fel arall)	
Sir	**Cod Post**
MANYLION CYSWLLT	
Ffôn	
Ffôn Symudol	
E-bost	

A oes gennych hawl i weithio yn y DU?	**Oes** ☐	**Nac Oes** ☐

2. Cofnod Trwydded Yrru Presennol			
Rhif Trwydded Yrru DVLA			
Rhif Dyroddi			
Dyddiad Dyroddi		**Dyddiad Daw i Ben**	
Nid yw'r drwydded bapur sy'n cyd-fynd â'ch trwydded cerdyn-llun yn ddilys bellach. Gallwch rannu'ch cofnod trwydded yrru presennol trwy greu cod gwirio ar wefan GOV.uk. Chwiliwch am '*view my driving licence*'. Mae'r cod yn ddilys am 21 diwrnod a gellir ei ddefnyddio unwaith yn unig.			
'Cod gwirio' y Drwydded			

3. Gwirio cod treth (bydd angen enw defnyddiwr a chyfrinair Porth y Llywodraeth arnoch i gwblhau gwiriad treth, gallwch greu un trwy gofrestru ar gyfer gwasanaethau ar-lein (CThEM))	
Gwiriad cyfeirnod cod treth	

4. Hanes Gyrru		**Ticiwch ✓**	
A ydych wedi cael eich gwahardd rhag gyrru erioed?		**Ydw** ☐	**Nac Ydw** ☐
Os Ydych, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.			
Dyddiad	Manylion		
A oes gennych chi neu erioed wedi cael unrhyw Euogfarnau Moduro?		**Oes** ☐	**Nac Oes** ☐
Os Oes, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.			
Dyddiad	Natur y Drosedd	Cosb	
A oes gennych i neu wedi dal Trwydded Gyrru Tacsi gyfredol gydag unrhyw awdurdod trwyddedu arall erioed?		**Oes** ☐	**Nac Oes** ☐
Os Oes, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.			
Awdurdod Trwyddedu			
Rhif y Drwydded			
Dyddiad Dyroddi			
Dyddiad Daw i Ben			
Unrhyw fanylion pellach			

5. Manylion Cyflogaeth	
Nodwch fanylion y busnes yr ydych yn bwriadu gyrru iddo.	
Enw'r Cwmni	
Cyfeiriad	
Sir	Cod Post
Rhif ffôn	

6. Euogfarnau Blaenorol	**Ticiwch ✓**	
A oes gennych unrhyw euogfarnau neu rybuddion blaenorol neu unrhyw gyhuddiadau dan ystyriaeth? (Defnyddiwch y daflen ychwanegol os oes angen).	**Oes** ☐	**Nac Oes** ☐

Os Oes, rhowch fanylion os gwelwch yn dda.		
Dyddiad	Natur y Drosedd	

7. Hyd y Drwydded

Mae trwydded i yrru cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat yn para am 3 blynedd. Gall y Cyngor roi trwyddedau am gyfnod byrrach o flwyddyn os ydy o'r farn fod hynny'n briodol yn amgylchiadau'r achos unigol.

A ydych yn dymuno gwneud cais am drwydded am gyfnod byrrach o un flwyddyn?	**Ydw** ☐	**Nac Ydw** ☐

Os ydych, eglurwch amgylchiadau eich achos unigol sy'n golygu ei bod yn briodol i roi trwydded cyfnod byrrach.
(Defnyddiwch daflen ychwanegol os oes angen).

8. Rhestr Wirio:

Rwyf wedi	**Ticiwch ✓ Do**
• cynnwys llun maint pasbort o fy hun	☐
• amgáu copi o fy nhrwydded yrru cerdyn-llun sydd wedi bod gen i am fwy na 12 mis.	☐
• amgáu Tystysgrif Lefel Uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	☐
• amgáu tystysgrif feddygol a gwblhawyd gan fy Meddyg Teulu	☐
• amgáu'r ffi cais perthnasol	☐

9. Datganiad

Mae'r wybodaeth yn y ffurflen hon yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Ymgymeraf i gydymffurfio â darpariaethau unrhyw Ddeddfau ac is-ddeddfau ynghyd ag unrhyw amodau sydd mewn grym neu a fydd mewn grym o bryd i'w gilydd, yn ardal y Cyngor o ran Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat. Deallaf os byddaf yn ymwybodol fy mod yn gwneud datganiad ffug y gall fy nhrwydded gael ei gwahardd neu ei diddymu.

LLOFNOD		**DYDDIAD**	

Nodwch:
Os bydd unrhyw berson yn gwneud datganiad ffug yn ymwybodol neu'n fyrbwyll, neu'n hepgor unrhyw fanylyn perthnasol, wrth roi gwybodaeth dan yr Adran hon, bydd yn euog o drosedd (Deddf

Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, Adran 57(3)) a bydd yn atebol ar euogfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na £1000.

Bydd Cyngor Gwynedd yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen hon i gynnal Cofrestr Gyhoeddus o Yrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Trwyddedig fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth berthnasol. Gall rannu'r wybodaeth a ddarparwyd gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus, er mwyn atal a chanfod twyll.

Taflen Ychwanegol